**Nodyn Cyfarfod y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yng Nghymru a gynhaliwyd ddydd Iau 27ain Ebrill 2017 – swyddfa Cyngor Ar Bopeth, 4ydd Llawr, Tŷ Trafalgar, 5 Fitzalan Place, Caerdydd CF24 0ED**

**Yn bresennol:**

Bob Chapman, Cadeirydd y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol (BC)
Andrew Jacobs, Yr Uned Cynhwysiant Digidol ac Ariannol, Llywodraeth Cymru (AJ)
Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cymunedau, Llywodraeth Cymru (AJohn)
Stephanie Barry, Yr Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru (SB)

**Aelodau Craidd**
Lisa Hayward, CLlLC (LH)
Dr Sumina Azan, Iechyd Cyhoeddus Cymru (SA)
Lee Phillips, Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (LP)
Lara Ramsay, Y Loteri Fawr (LR)
Fran Targett, Cyngor ar Bopeth (FT)
Paul Neave, Cyngor Sir y Fflint (PN)
JJ Costello, Shelter Cymru ac yn cynrychioli rhwydweithiau IAPF (JC)

**Aelodau Estynedig**
Geoff Marlow, Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru (GM)
David Clayton, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru (DC)
Jane Corbett, Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd, Llywodraeth Cymru (JC)
Andrew Felton, Uned Materion Cyfansoddiadol, Llywodraeth Cymru (AF)
Sally Hunt, Cangen Trechu Tlodi, Llywodraeth Cymru (SH)
Pete Cowan, Prifysgol De Cymru (Cyfarwyddwr y Clinig Cyngor Ariannol a Chyfreithiol) (PC)
Vanessa Owens, Undeb Credyd Gorllewin Cymru (VO)
Will Atkinson, Tai Cymunedol Cymru (WA)
Graham Roberts, Yr Adran Gwaith a Phensiynau (GR)

## Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau

1.1 Croesawodd BC bawb, gan gynnwys yr aelodau estynedig, i 9fed cyfarfod y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Kay Powell, Cymdeithas y Gyfraith
Salli Edwards, Cyngor Ar Bopeth Sir y Fflint
Martin Swain, Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru
Kathryn Evans, Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd, Llywodraeth Cymru - Jane Corbett yn bresennol ar ei rhan
John Davies, Cangen Cydraddoldeb, Llywodraeth Cymru
Marcus Hill, Yr Amgylchedd, Llywodraeth Cymru
Tina Aspinwall, Achub y Plant

Ceri Doyle, Cartrefi Dinas Casnewydd

1.2 Dosbarthodd BC ei adroddiad i'r aelodau cyn y cyfarfod, i dynnu sylw at y gwaith diweddar. Nododd BC yr anogaeth gan Weinidogion.

**Eitem 3 – Diweddariad gan Lywodraeth Cymru**

3.1 Dywedodd AJ wrth y grŵp bod Paul Neave, sy'n aelod o grŵp craidd NAN, wedi cael ei benodi fel y Pennaeth Gwasanaethau Cynghori newydd ar Secondiad i Lywodraeth Cymru. Bydd Paul yn dechrau yn ei swydd newydd ddydd Llun 8fed Mai 2017. Roedd y grŵp yn croesawu hyn.

3.2 Dywedodd AJ wrth y grŵp bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar y cyd gan HMT a DWP ar sefydlu Corff Canllawiau Ariannol Sengl. Roedd yr ymateb yn datgan, yn amodol ar drafodaeth bellach, bod Llywodraeth Cymru o blaid model arall o gyfrifoldeb a chyllidebau datganoledig mewn perthynas ag elfennau Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS) y corff arfaethedig. Roedd hyn hefyd yn amodol ar fformiwla cyllid teg, sy'n adlewyrchu'n llawn anghenion ychwanegol pobl yng Nghymru. Byddai hyn wedyn yn cael ei weithredu yn unol â'r Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016. Roedd hwn yn cefnogi model cyllido integredig ar gyfer cyngor cyfannol i gynnwys mesurau ataliol, fel gallu ariannol, a chymorth mewn argyfwng. Byddai'r dull hwn o weithredu'n sicrhau'r gwerth gorau am yr arian sy'n cael ei wario ac integreiddio llawn â gweithgareddau cysylltiedig eraill.

Yn dilyn hyn, mae HMT a DWP yn paratoi deddfwriaeth ar hyn o bryd ac maent wedi rhannu copi o ddrafft cynnar y bil gyda Llywodraeth Cymru. Bydd yr ymgysylltu'n parhau ar lefel Swyddogol.

3.3 Dywedodd AJ wrth y grŵp am y gweithdy a gynhaliwyd ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS) a Llywodraeth Cymru yn gynharach yr wythnos honno. Mae MAS yn dechrau ar eu gwaith ar raglen gomisiynu newydd ar gyfer gwasanaethau cynghori ar ddyledion a hefyd mae'r Is-adran Cymunedau yn Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gellir integreiddio'n well y tri grant/tair rhaglen gwasanaethau cynghori ar wahân mae'n eu cyllido. Mae MAS a Llywodraeth Cymru eisiau cydweithio'n agosach a hefyd maent yn defnyddio'r ddealltwriaeth o'r sector a'r wybodaeth amdano i ddylanwadu ar gyfeiriad y symud. Mae'r amserlenni'n dynn iawn gyda'r cyfnod dadansoddi, cynllunio ac ymgysylltu'n digwydd yn ystod misoedd Mai a Mehefin, gyda bwriad i rannu'r opsiynau cychwynnol gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant erbyn diwedd mis Mehefin.

**Eitem 4 – Adolygu Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor Llywodraeth Cymru**

4.1 Cam Gweithredu 14 y Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor yw i'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol fonitro'r cyflawni yn erbyn y cynllun gweithredu ac adrodd yn ôl i Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant ar flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn flynyddol. Ar gyfer yr ymarfer

hwn, rhannodd y grŵp yn 3 o grwpiau gyda phob un yn trafod y camau gweithredu ‘Ansawdd’, ‘Cyllid’ a ‘Chydweithredu’ yn eu tro. Mae nodiadau’r trafodaethau i’w gweld yn Nogfen 1.

## Eitem 5 – Cynllun Gwaith NAN

5.1 Parhaodd y drafodaeth grŵp yn Eitem 4 yn hirach na’r disgwyl ac felly ni chafwyd unrhyw drafodaeth ar Eitem 5 yn y cyfarfod.

## Eitem 6 – Nodiadau’r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17$^{eg}$ Ionawr 2017

6.1 Cytunodd y grŵp bod nodiadau’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17$^{eg}$ Ionawr yn gofnod cywir. Roedd un cam gweithredu eto i’w roi ar waith ynghylch diwygio’r Cylch Gorchwyl, a fydd yn cael ei ddosbarthu gyda nodyn y cyfarfod ar gyfer y cyfarfod i’w gynnal ar 27$^{ain}$ Ebrill.

**Cam Gweithredu: BC i ddiwygio’r Cylch Gorchwyl a’i ailddosbarthu**

## Eitem 7 – Cyflwyniad ar ‘Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod’

7.1 Cafwyd cyflwyniad gan Alyson Francis, Cyfarwyddwr Hwb Cefnogaeth ACE - Cymru Well Wales, ac mae ar gael i’w weld os gwnewch gais am gopi gan Stephanie Barry.

## Eitemau 8 a 9 – Cloi’r cyfarfod a dyddiadau’r cyfarfodydd yn y dyfodol

Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y grŵp craidd yn cael ei gynnal ar 31$^{ain}$ Gorffennaf yng Nghaerdydd.

**Yr Uned Cynhwysiant Ariannol**